Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

27 Tachwedd 2024

Adroddiad gan:	Rhys Williams – Pennaeth Gwasanaeth - Dysgu Proffesiynol
Testun:	Adroddiad cynnydd hanner blwyddyn ar yr elfen 'Diwygio' o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl)

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad cynnydd i Aelodau Cyd-bwyllgor GwE ar yr elfen 'Diwygio' o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl), yn benodol:

- Cwricwlwm i Gymru
- Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth

2.0 Cefndir

2.1 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno prif grantiau addysg o dan un pennawd, sef y Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl) o 2024-25 ymlaen, mae'r grant yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Awdurdodau Lleol/ysgolion, ac nid i'r consortia rhanbarthol, gyda'r gofynion a'r risgiau ynghlwm â thelerau ac amodau'r grant bellach yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol unigol.

2.2 Er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth i ysgolion tra bod yr adolygiad haen ganol y system addysg yng Nghymru yn mynd yn ei flaen, nododd Llywodraeth Cymru y disgwyliad bod unrhyw drefniadau gweithio rhanbarthol presennol yn parhau yn ystod y cyfnod hwn a'u bod yn cael eu hwyluso drwy'r cyllid grant penodol i gefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol mewn ysgolion.

2.3 Trosglwyddwyd yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth' o'r GAALl 'Diwygio' yn llawn i GwE gan pob un o 6 Awdurdod Lleol y rhanbarth er mwyn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma ac sydd yn bodloni telerau ac amodau'r grant.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Fel sydd wedi ei gytuno yng nghynlluniau busnes GwE a'r Awdurdodau Lleol ar gyfer 2024-25 bydd GwE yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor ar yr elfen Diwygio:

- Cwricwlwm i Gymru – Cefnogi dealltwriaeth a dulliau ysgolion ac UCD o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan alluogi ymarferwyr i ymgymryd ag ystod o weithgareddau i wireddu'r cwricwlwm, i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer.

- Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth – datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i alluogi ysgolion ac UCD i ddatblygu addysgwyr proffesiynol fydd yn adfyfyrio, yn ymholi ac yn cyd-weithio.

3.2 Yn ogystal, ac yn unol â gofynion monitro'r GAALl, mae gofyn i GwE i ddarparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar yr elfennau yma er mwyn i'r Awdurdodau Lleol gyflwyno adroddiadau monitro yn erbyn y dibenion a'r amcanion a osodwyd i Lywodraeth Cymru.

3.3 Ynghlwm mae adroddiad cynnydd am y cyfnod 01/04/2024 – 30/09/2024 (Atodiad 1), ynghyd â data ymgysylltu am y cyfnod yma (Atodiad 2), sydd yn cyfarch y gofynion a nodir yn 3.1 a 3.2.

3.4 Mae gan GwE Cynlluniau Busnes sy'n cyfarch Telerau ac Amodau'r grant Diwygio. Mae'r cynlluniau yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i holl ysgolion y rhanbarth o ran yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'.

3.5 Mae Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yn ymateb yn benodol i ofynion telerau ac amodau'r grant hefyd, ac yn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma. Mae'r Cynnig ar gael am

ddim i holl ymarferwyr y Gogledd ar ffurf catalog sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Gellir cyrchu'r Cynnig Dysgu Proffesiynol o'n gwefan: Cynnig Proffesiynol GwE.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad cynnydd.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad Cynnydd

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nid yw'r argymhelliad yn creu ymrwymiad ariannol newydd; fel sydd wedi ei nodi yn rhan 5 o'r adroddiad, mae disgwyl bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol presennol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.